# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI**

Dyddiad ac Amser

**6.00 y.h., DYDD MAWRTH, 10FED HYDREF, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

**Am Fynediad i'r Cyhoedd, Cysylltwch a Einir Rh Davies**

Pwynt Cyswllt

**Einir Rh Davies**

**01286 679868**

**EinirRhianDavies@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 2 Hydref 2023)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

Hefin Underwood
Elin Hywel
Richard Glyn Roberts

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Jenny Moss | Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli |
| Stephen Tudor | Cynrychioli Clwb Hwylio Pwllheli |
| Michael Sol Owen | Cynrychioli Plas Heli |
| Wil Partington | Cynrychioli Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli |
| Andrew Picken | Cynrychioli Siambr Fasnach Pwllheli |
| Alwyn Roberts | Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Pwllheli |
| Cyng. Mike Parry | Cyngor Tref Pwllheli |
| Ifor Hughes | Cymdeithas Perchnogion Cyhod Pwllheli a'r Cylch |

### Sylwedyddion:

Desmond George
David Williams
Gwilym Jones

# RHAGLEN

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2023/24

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2023/24

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Ystyried unrhyw eitemau sydd yn fater brys ym marn y Cadeirydd.

## 6. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Mawrth, 2023, fel rhai cywir.

## 7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR 8 - 14

Cyflwyno adroddiad Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli

## 8. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

Materion i'w hystyried ar gais aelodau'r Pwllgor Ymgynghorol

## 9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodi y cynhelir y cyfarfod nesaf 5ed Mawrth, 2024

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI 14/03/2023

**PRESENOLDEB :**

**Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorydd Hefin Underwood (Cadeirydd) a'r Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Economi a Chymuned)

**Aelodau Cyfetholedig:** Nigel Hough ((Ar Ran Jenny Moss) yn Cynrychioli Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli), Michael Sol Owen (Cynrychioli Plas Heli Pwllheli), Cynghorydd Mike Parry (Cynrychioli Cyngor Tref Pwllheli), Wil Partington (Cynrychioli Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli), Andrew Picken (Cynrychioli Siambr Fasnach Pwllheli) ac Alwyn Roberts (Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Pwllheli)

**Swyddogion :** Gerwyn Owen (Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli), Llŷr B Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Einir Rh Davies a Lowri H Evans (Gwasanaethau Democratiaeth) ac Alaw Hughes (Cyfieithydd)

**Eraill yn Bresennol yn Arsylwi :** Desmond George (Sylwedydd, Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi), Ruth James (Ysgrifennydd Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli) ac Andy Vowell (Sefydliad y Bad Achub Pwllheli)

Ar ddechrau y cyfarfod cydymdeimlwyd gyda Mr Stephen Tudor yn ei absenoldeb, yn dilyn colli ei dad, Mr Huw Tudor, a chymerwyd munud o dawelwch.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorydd Elin Hywel (Aelod Lleol), Y Cynghorydd Gwilym Jones (Sylwedydd, Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog), Jenny Moss (Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli), Y Cynghorydd Richard G Roberts (Aelod Lleol) a Stephen Tudor (Cynrychioli Clwb Hwylio Pwllheli)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Hydref, 2022 fel rhai cywir. Yn y cyfarfod blaenorol, codwyd mater brys ynglŷn â safle Ambiwlans Awyr Dinas Dinlle, a chytunwyd i ddanfon llythyr o bryder yn enw y Pwyllgor. Derbyniwyd ymateb yn cadarnhau bod trafodaethau mewn lle, ond erbyn hyn wedi derbyn cadarnhad fod ymestyniad o dair blynedd wedi ei ganiatáu. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ysgrifennu pan ddaw ymgynghoriad eto yn erfu arnynt i gadw y trefniant presennol, gan y byddai unrhyw drefniant gwahanol yn niweidiol i'r Ardal. Cytunwyd i gadw y Pwyllgor yn y darlun gydag unrhyw ddatblygiadau neu gyfathrebu pellach.

**5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL A GWEITHREDOL YR HARBWR**

Cyfeiriwyd at yr adroddiad oedd wedi ei chreu gan Reolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli gan adrodd fel a ganlyn :

**1.1 Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd**

Atgoffwyd y Pwyllgor bod Barry Davies (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol) yn ymddeol 31/3/23 a'i fod wedi bod yn greiddiol yn y gwaith morwrol a'r Hafan am dros 27mlynedd. Nododd y Pwyllgor ei ddymuniad i ysgrifennu ato i ddiolch am ei holl waith ar achlysur ei ymddeoliad.

**1.2 Carthu'r Sianel**

Cadarnhawyd bod y gwaith yn mynd rhagddo i gael gwared a hanner y carthion, ac nad oes effaith andwyol ar y Parc Gwyliau o wneud hyn. Cadarnhawyd y bydd y gwaith yn parhau hyd ddiwedd y mis a bod arolwg hydrograffeg wedi ei gynnal.

Mewn ymateb i gwestiwn a yw y grwyn yn gweithio, cadarnhawyd ei bod yn parhau i fod yn sefyllfa heriol iawn, ond bod ymgais i dynnu 20,000 o dunelli erbyn diwedd y mis, ac y byddai hyn yn rhywbeth i'w wneud yn flynyddol.

Atgoffwyd y Pwyllgor o'r trefniant blaenorol i fynd a'r tywod ar draethau megis Grugan, a holiwyd a yw y drefn hon wedi dod i ben? Cadarnhawyd mai Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sydd â chyfrifoldeb am draeth Glandon. Mae hanner wedi ei werth a hanner wrth gefn, ac mae YGC wedi rhoi cais i symud y tywod i Grugan yn yr Hydref. Dŵr Cymru sydd yn berchen ar y tir, ac mae yr her i gadw y tywod i lawr yng ngheg yr Harbwr yn parhau. Cadarnhawyd bod y Gwasanaeth mewn lle cryf i werthu y tywod nawr, a'r gobaith fyddai ei werthu.

Mae carthu basn y marina yn sialens, yn enwedig gan fod y lagwnau yn llawn, a chyfeiriwyd at y Rhaglen Waith ble mae trafodaethau ar y gweill gyda CNC i edrych ar roi y llaid yn y môr, ond bod angen gwneud y gwaith carthu yn Hydref 2023.

Cadarnhawyd bod gwerthu y tywod ar £5.17 y dunnell, yn cyfrannu tua £130,000 ond bod £50,000 ohono yn mynd i Stad y Goron a chytunwyd bod angen llythyru Stad y Goron. Nodwyd bod ymgais i'w gael yn gost niwtral, gan gofio bod carthu ceg yr Harbwr yn £100,000 ar ei ben ei hun, ac yn her enfawr. Mae angen datrysiad ynglŷn â beth i'w wneud gyda y carthu, gan fod angen carthu yn rheolaidd heb amharu ar ddefnydd o'r Harbwr.

Cwestiynwyd yr hyn sydd yn y lagŵn, a'r pryder nad oes modd iddo fynd i'r chwarel? Cadarnhawyd bod y rheolau/safonau wedi newid, a'i fod yn cael ei brofi yn aml, a bod Jones Brothers yn edrych ar ei gywasgu, ond bod gwaith ar ddatrysiad yn parhau. Yn sgil hyn, cadarnhawyd bod y tywod 2% rhy uchel i'w roi ar Draeth Berch. Nodwyd pryder am y sefyllfa a nodwyd bod lle ar Domen Tŷ Towyn. Holiwyd oni fyddai modd trafod gyda CNC a chadarnhawyd bod sgwrs fuddiol wedi bod rhwng YGC a CNC. Yn ychwanegol nodwyd bod Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli wedi amlinellu y sialens wrth CNC wrth drafod y Cynllun Perygl Llifogydd Pwllheli, sydd yn rhaglen hirdymor. Cadarnhawyd bod y Swyddog YGC yn trafod hyn, ynghyd a'r drwydded forol, heblaw am adeiladu lagwnau. Nodwyd mai y rith sydd wedi ei lygru, gyda thua 40,000 tunnell i'w waredu, a'r bwriad fyddai gwaredu 10,000 tunnell y flwyddyn.

**1.3 Materion Ariannol**

Cyfeiriodd Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli at y gwaith uwchraddio, gan gadarnhau y bydd y bont cei tanwydd wedi ei dileu ar ôl y Pasg. Nodwyd bod cydweithio gydag Antur Waunfawr drwy osod y rac beics, ail-leoli beics i Beics Antur, edrych ar osod banc dillad a defnyddio eu gwasanaeth gwaredu papur. Cadarnhawyd o ran tanwydd y bydd y pontŵn yn cyrraedd cyn Pasg ond na fydd y newidiadau yn cael eu gwneud nes ar ôl y Pasg, ac y bydd yr hen bont tanwydd yn parhau i weithio.

## 1.4 Ffioedd a Thaliadau 2023/2024

Cadarnhawyd bod y ffioedd wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor a'i bod yn sefyllfa heriol iawn. Mae Cytundebau wedi eu danfon a 303 wedi eu derbyn a 26 yn unig wedi canslo. Cadarnhawyd ei bod yn edrych yn dda yn yr Hafan gyda llawer eisiau dod i Bwllheli. Nodwyd bod nifer heb dderbyn y cytundebau trwy'r post ac yn edrych i symud i sustem electronig y flwyddyn nesaf, ond teimlwyd y byddai yr Hafan yn llawn erbyn Mawrth.

Cyfeiriwyd at Adolygiad y Cyngor, gan nodi bod tair elfen o arbedion yn yr Hafan. Codwyd pryder am y patrwm yn y toriadau a chwestiynwyd y synnwyr y tu ôl i'r toriadau, yn enwedig torri yn ôl ar yr Harbwr yn flynyddol, yn hytrach na buddsoddi.

Cymerodd yr Aelod Cabinet y cyfle i ddweud ei bod wedi ymweld â'r Harbwr ac wedi gweld y gwaith gwych. Serch hynny, nododd bod yn rhaid i bob Adran yn y Cyngor edrych ar arbedion oherwydd y bwlch ariannol a'r codi mewn chwyddiant, ac nad oedd dewis ond gofyn am arbedion o bob Adran, gan bwyso a mesur anghenion trigolion Gwynedd. Nododd nad yw toriadau byth yn hawdd a bod penderfyniadau anodd wedi eu gwneud. Ategodd Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli y sylw, gan nodi bod y toriad yn llai nag Adrannau eraill. Nododd y nod i gynyddu targed incwm, wrth aros yn gystadleuol. Cyfeiriodd at arbediad hanesyddol, gan nodi nad yw canran Stad y Goron wedi cynyddu ers blynyddoedd. Cadarnhaodd hefyd na fydd staff ychwanegol yn cael eu penodi dros yr Haf.

Ategwyd sylwadau yr Aelod Cabinet gan y Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned, gan nodi fel y bu yn rhaid i bob Adran adnabod arbedion of 20% o'r gyllideb yn y lle cyntaf oedd yn her aruthrol o ran blaenoriaethu. Cadarnhaodd nad oes neb yn hoffi toriadau/arbedion ond nododd ei fod yn eithaf hyderus na fyddai yn cael effaith andwyol ar drigolion Gwynedd. Nododd bod pwysau aruthrol ar gyllideb gyhoeddus. Cadarnhaodd nad oedd y ffioedd wedi eu codi yn uwch na chwyddiant. Atgoffwyd pawb am yr angen i gadw yr uchelgais, gan gofio am y buddsoddiad yn y Cynllun Datblygu Pwllheli/Glan Don.

Gwnaed y sylwadau canlynol gan y Pwyllgor

- Mae tanwydd yn rhatach mewn mannau eraill, a nodwyd yr ymdeimlad bod llawer ddim yn mynd allan oherwydd costau tanwydd a nodwyd hefyd ei fod yn arfer bod yn rhatach yn y Marina.
- Nid oes neb wedi gwrthwynebu y codiad mewn ffioedd ond nodwyd anfodlonrwydd gyda y costau trydan a'r angen am system decach, megis mesurydd clyfar neu dechnoleg fodern. Mewn ymateb, nodwyd, yn hanesyddol, bod trydan yn cael ei gyfrifol yn ôl metredd cwch, a bod gwaith chwilio am ddatrysiad megis edrych ar bwyntiau gwefru ar y gweill, ond nad oedd modd newid ar hyn o bryd. Y gobaith oedd y byddai ffioedd trydan yn gostwng er mwyn cael pris teg i bawb.

## 1.5 Eitemau Gweithredol

**Mordwyo –** ar 20 Mawrth 2023, nodwyd bod popeth yn ei le.

**Staffio** - rhoddwyd clod mawr i'r tîm, oedd wedi derbyn 91% bodlonrwydd mewn holiadur deiliaid angorfeydd, sef gwasanaeth 'ardderchog' neu 'dda iawn'.

**Graff** - o'r canlyniadau mae modd targedu gwaith megis wifi a'r maes parcio, mae hwn yn waith pwysig sydd wedi dangos canlyniadau gwerthfawr sydd wedi ei gael o'r holiadur. Llongyfarchwyd y tîm ar y ffigyrau boddhad cwsmer.

**Badau Personol** - adroddwyd yn flaenorol nad oeddynt yn cael eu hadnabod fel cychod, ac o ganlyniad nad oedd yn glir ar hyn o bryd pwy fyddai a'r hawl erlyn, petai achos yn codi. Adroddwyd y bwriad nawr i hyrwyddo y ffaith bod badau personol gyda dirwy neu ddedfryd carchar erbyn hyn

a bod darn o waith i'w wneud yma. Cwestiynwyd onid mater i Gymdeithas Llywodraeth Leol fyddai hyn, gan fod materion ehangach? Cadarnhawyd bod y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol Newydd yn cyfarfod gydag Awdurdodau Harbwr y DU i godi y mater, gan fod nifer o faterion aneglur sydd â disgwyliadau yn codi ohonynt. Diolchwyd i'r cyn-Reolwr Gwasanaeth Morwrol am y gwaith ar hwn a chytunodd yr Aelod Cabinet i holi ymhellach.

Nodwyd yr ymdeimlad bod yr holiadur yn adlewyrchiad o sut oedd pobl yn teimlo a'i fod yn farina gwych ar y cyfan. Awgrymwyd bod badau personol yn cael eu barnu yn annheg braidd ac y dylai unrhyw arwyddion o rybudd fod ar gyfer sylw pawb. Nododd Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli yr angen i berchnogion badau personol cael eu haddysgu er mwyn gwella yr amser ar y dŵr i bawb.

**Cynllun Strategol** - cadarnhawyd bod cyfarfod cychwynnol wedi cymryd lle gyda Blue Sea Consulting, a'u bod yn ymweld eto
28 Mawrth - Swyddogion a Chynghorwyr Sir i groesawu yr Ymgynghorwyr
29 Mawrth - Sesiynau galw mewn ym Mhlas Heli - croeso i bawb alw i mewn neu drefnu amser
30 Mawrth – Bydd yr Ymgynghorwyr o gwmpas yn y bore.
Cadarnhaodd y Rheolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli y byddai yn ysgrifennu at y Pwyllgor gyda y dyddiadau uchod.
Cadarnhaodd y byddent yn cynnal Adolygiad o ardal Glan Don, Cae Ceffyl ayyb a Chynllun Strategol Glan Don.

Cymerwyd y cyfle i

- Hysbysu y Pwyllgor y bydd Prosiect Pum Mil ym Mhlas Heli yn gweithio ar brosiect cymunedol i osod mwy o gyfleusterau cawod. Un bwriad yw codi arian at awtistiaeth ac anogwyd y Pwyllgor i fynychu ar y diwrnod
- Nodi bod Plas Heli a'r Clwb hwylio wedi ennill nifer o gystadlaethau cenedlaethol a rhyngwladol i ddod i Bwllheli yn ddiweddar.

**PENDERFYNWYD** :

Nodi a derbyn yr adroddiad a chytuno i'r Aelod Cabinet godi mater y Ddeddfwriaeth Newydd o Amgylch Badau Dwr Personol gyda Cymdeithas Llywodraeth Leol.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniadau gwerthfawr.

## 6. TREFNIADAU Y DYFODOL

Trafodwyd trefniadau y dyfodol, gan nodi dymuniad rhai i gyfarfod wyneb yn wyneb. Cyfeiriwyd at safbwynt y Cyngor Llawn (yn ei gyfarfod 2/12/21) ynglŷn â threfniadau y dyfodol ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau ffurfiol a derbyniwyd y safbwynt.

Atgoffwyd pawb gan Reolwr Masnachol Hafan a Harbwr Pwllheli petaent angen sgwrs bod ei ddrws wastad yn agored neu fod modd cysylltu ag o ar y ffon neu drwy e-bost.

## 7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 10 Hydref, 2023 am 6.00 pm

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00 pm a daeth i ben am 7.15 pm.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli** |
| **DYDDIAD** | **10fed Hydref 2023** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli a Gweithredol yr Harbwr** |
| **AWDUR(ON)** | **Rheolwr Masnachol a Is-Rheolwr Hafan a Harbwr Pwllheli** |

**Cyflwyniad**

Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion yn ymwneud â rheoli, gwarchod a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau aelodau ar faterion yn ymwneud â Harbwr Pwllheli.
Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod yn diweddu diwedd Medi 2023, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

Mae Pwyllgor Harbwr Pwllheli yn Bwyllgor Harbwr anstatudol, a sefydlwyd yn unol â chymeradwyaeth a chefnogaeth y Cyngor. Mae'r caniatâd yn darparu bod pymtheg (15) o aelodau yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli. Mae rhestr gynhwysfawr o'r grwpiau a'r sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli ar bwyllgor yr Harbwr yn y rhaglen.

Yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor, bydd gofyn i gynrychiolwyr pob grŵp a sefydliad ddarparu tystiolaeth o'u cyfansoddiad i'r Cyngor ynghyd â llythyr gan eu sefydliad yn cadarnhau enw eu cynrychiolydd. Nid yw'r uchod yn berthnasol i aelod o'r Cyngor Sir, Tref neu Gymuned.

**1.1 Côd Diogelwch Morwrol Porthladdoedd.**

Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn nodi'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd ar ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn cynrychioli arfer da a gydnabyddir gan ystod eang o rhanddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â glynu at arfer da fod yn arwydd o awdurdod harbwr yn torri dyletswyddau cyfreithiol penodol. Mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar addasrwydd y Côd Diogelwch Morwrol a derbyn sylwadau cyson ar ei gynnwys, fel y gellir ei adolygu a'i fod yn berthnasol i weithgaredd yr harbwr, mordwyo. cymhorthion, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith cyffredinol o ddydd i ddydd yn Harbwr Pwllheli.

Mae'n flaenoriaeth gan yr Uwch Swyddog Harbwr, ynghyd â'r Rheolwr Gwasanaeth Morwrol newydd, Bryn Pritchard Jones, i ddiweddaru'r Côd Diogelwch ar gyfer pob harbwr yng Ngwynedd.

**1.2 Carthu**

Mae'r carthu yn parhau i fod yn her, ac mae'r uned yn parhau i weithio'n galed i ddod o hyd i ateb hirdymor i'r mater. Gan weithio gydag Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC), mae pob opsiwn yn cael ei roi at ei gilydd i edrych ar yr holl bosibiliadau.

Mae gwerthusiad opsiynau llawn yn cael ei ddatblygu ar gyfer Cyngor Gwynedd gan YGC a bydd yr holl opsiynau sydd ar gael yn cael eu cyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli a Chabinet Cyngor Gwynedd, a'r brif her fydd cael gwared ar y silt. Mae tendr allan ar hyn o bryd i wagio'r morlyn cyn yr ymgyrch garthu nesaf, fodd bynnag mae gwerthusiad cost cychwynnol yn amcangyfrif dros £1m i wagio rhan ohono. Bydd tendr i garthu'r basn, ar raglen 5 mlynedd yn cael ei ryddhau yn fuan.

Bydd y twmpath wrth geg yr harbwr yn cael ei symud dros y gaeaf cyn y carthu yng Ngwanwyn 2024. Mae rhaglen gost niwtral wedi ei datblygu ar gyfer y gwaith hwn, ac felly yn rhyddhau adnoddau i ganolbwyntio ar y basn a'r sianel.

**1.3 Materion Ariannol**

Mae crynodeb o gyllideb yr Harbwr Allanol a Hafan Pwllheli ynghlwm i'r adroddiad hwn.
Yn ystod cyfnod y Gwanwyn a'r Haf, bu'n rhaid ymrwymo adnoddau ariannol i'r meysydd gwaith a ganlyn:-

• Uwchraddio'r compownd diogel, gan gynnwys pwyntiau trydan, dŵr a goleuo (Ail gam)

• Mae darparwr golchi dillad newydd wedi'i gofrestru, a disgwylir i'r gwaith gosod ddigwydd yn yr wythnosau nesaf.

• Oedi gyda gosod y cei tanwydd oherwydd nad oedd eisiau amharu ar dymor yr haf, gyda chynlluniau mewn lle i'w osod ym mis Tachwedd.

• Mae pedestalau SOS newydd wedi eu lleoli ar y pontynau. Mae'r pedestals yn cynnwys pecyn cymorth cyntaf a diffoddwr tân.

• Prynwyd tractor newydd i'r tîm gynnal a chadw'r tir, cario crudau a gwaith cyffredinol o amgylch y safle. Cafwyd cystadleuaeth lwyddiannus i enwi'r tractor, gyda'r enillydd yn y diwedd yn dod allan fel 'Tony' ar ôl un o aelodau'r tîm.

• Gwnaethpwyd uwchraddio wifi ar y pontynau, gan dargedu pontynau 7 hyd at 12 yn benodol. Roedd hwn yn ddarn o waith a weithredwyd yn dilyn adborth o arolwg PMBHA. Roedd yr uwchraddio hefyd yn cynnwys uwchraddio i 1TB, gan gyrraedd y terfyn uchaf ar gyfer y safle.

**1.4 Ffioedd a Thaliadau 2024/25**

O ran y ffioedd a'r taliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Hafan a Phwllheli ynghyd â ffioedd lansio Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol ar gyfer tymor 2023/2024, mae'n fwriad gan y gwasanaeth addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant. Ar hyn o bryd nid yw'r gwasanaeth wedi derbyn cadarnhad eto o'r cyfraddau i'w gosod.

Mae'n cael ei ystyried ar hyn o bryd i godi tâl ar ddeiliaid angorfa am storio trelars yn y compownd ger y llithrfa, ynghyd â thaliadau LOA ychwanegol ar gyfer badau ychwanegol, tendrau a badau dŵr personol wedi'u gosod ar angorfa.


**1.5 Eitemau Gweithredol**


***Mordwyo*** - Mae'r holl Gymhorthion Mordwyo yn Harbwr Pwllheli yn gweithio ac yn eu lle. Does dim "Rybudd i Forwyr" yn weithredol yn Harbwr Pwllheli ar hyn o bryd.


***Ystadegau Harbwr Blynyddol ac ati*** - Mae manylion ystadegau Hafan a Harbwr ar gyfer 2024/25 wedi eu cynnwys gyda'r adroddiad hwn. Mae'r nifer preswyl blynyddol wedi ei gynnal eleni, ac mae'r Hafan yn llawn. Mae'n ymddangos bod rhai newidiadau i'r farchnad o ran galw, gwerthiant a symudiadau. Gwelwyd rhai achosion o ganslo a gwerthu cychod yn yr Hafan/Harbwr yn ddiweddar, a thra bod y rhestr aros yn dal yn iach, mae nifer o'r rhai y cysylltwyd â nhw am angorfeydd wedi gostwng, wedi gofyn am gael eu symud neu wedi cael angorfa yn rhywle arall eisoes.


***Staffio* –** Clod mawr i'r tîm am y gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf, a hoffwn nodi fy niolch i'r tîm am eu gwaith mewn cyfnod heriol. Mae wedi bod yn gyfnod trist yn ddiweddar gyda'r newyddion a gawsom am Andy Green, ein Harweinydd Hafan, a gafodd ei ruthro i'r ysbyty ar ôl bod yn sâl. Mae'n dal yn ysbyty Walton yn derbyn triniaeth a chefnogaeth wych, ac edrychwn ymlaen at ei groesawu yn ôl adref yn fuan. Fel aelod annatod o'r tîm mae wedi cael effaith ar rywfaint o'n darpariaeth, ond clod i'r tîm y maent wedi camu i fyny i'r cymorth lle bo modd. Rydym wedi gwneud newidiadau dros dro yn fewnol er mwyn mynd i'r afael â rhai o ddyletswyddau Andy.
***Cynllun Strategol*** – Gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Ymgynghorwyr ar yr cynllun strategol ar gyfer ardal Glandon/harbwr Pwllheli. Yn dilyn cyfnod ymgynghori cychwynnol, lle bu'r ymgynghorwyr yn ymweld ac yn cyfarfod â chymaint o'r defnyddwyr/busnesau â phosibl, mae dilyniant yn cael ei gynnal yr wythnos hon, dydd Iau 12fed a dydd Gwener 13eg, i edrych ar rai o'r syniadau a gynhyrchwyd. Bydd cyfnod ymgynghori ar-lein yn cymryd y pythefnos nesaf, felly os oes unrhyw un wedi colli'r cyfle i gwrdd â'r ymgynghorwyr gallent gyflwyno eu barn ar-lein.


**Ystadegau Blynyddol *Hafan Pwllheli* - i Medi 2023**



450
400
350
300
250
200
150
100
50
0
302
293
292
287
306
292
299
239
378
408
404
2013
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
2022
2023



Cyfanswm medr cychod blynyddol - Total metres Resident boats
4500
4000
3500
3000
2500
2000
1500
1000
500
0
2893
2882
2794
2928
2769
2845
2286
3505
3844
3782
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
2022
2023


Nifer o gychod ymwelwyr mewn blwyddyn - No. of visiting vessels per year
1600
1400
1200
1000
800
600
400
200
0
1326
1519
1359
1310
1076
910
1327
646
545
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
2022
2023


Nifer o gychod ar yr rhestr diddordeb mewn angorfa - No. of vessels on the Expressions of Interest
250
200
150
100
50
0
74
74
0
0
0
0
0
75
222
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
2022
2023



Nifer o gychod Hwylio/Pwer yn yr Hafan - No. of sailing/power vessels in the Hafan
250
200
150
100
50
0
181 169
153 149
137 155
138 154
138 150
144 162
142 150
133 166
124 115
192 186
225 183
236 168
2012
2013
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
2022
2023
Hwyl/Sail
Pwer/Power



Gwerthiant Petrol/Disel - Petrol/Diesel sales
Petrol
Diesel
250000
200000
150000
100000
50000
0
130469
93403
137972
106765
134783
95166
129984
77373
106078
92777
98620
43639
217565
86979
189097
61620
103170
50336
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
2022
2023






| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad o pam fod perchennog doc yn gadel** | | | | | | | | | |
| ***Analysis of why resident bertholders leave*** | | | | | | | | | |
| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
| Wedi gwerthu cwch/sold boat | 9 | 9 | 11 | 10 | 10 | 18 | 21 | 17 | 10 |
| Ardal newydd/New Cruising Ground | 5 | 8 | 3 | 2 | 2 | 4 | 4 | 18 | 3 |
| Parcio a lansio/Park and Launch | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 0 |
| Dim rheswm/No reason given | 2 | 13 | 8 | 2 | 1 | 10 | 3 | 8 | 0 |
| Rhu ddrud/Too expensive | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Ariannol/Financial reasons | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Iechyd/Ill health | 4 | 9 | 3 | 2 | 1 | 2 | 8 | 3 | 1 |
| Blwyddyn allan/Year out | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 3 | 2 | 0 |
| Carthu/Dredging | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| COVID 19 | | | | | | 8 | 22 | 0 | 0 |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| Cyfanswm/Total | **28** | **41** | **25** | **25** | **41** | **44** | **61** | **52** | **15** |

**Ystadegau Blynyddol *Harbwr Pwllheli* - i Medi 2023**






| HARBWR PWLLHELI | Perfformiad Ariannol am y cyfnod 1 Ebrill 2023 at 31 Mawrth 2024 - Adolygiad Awst 2023 | | |
|---|---|---|---|
| | CYLLIDEB 1/4/23 at 31/3/24 | GWARIANT A RHAGWELIR 1/4/23 at 31/3/24 | GOR (TAN) |
| Gweithwyr | £29,744 | £29,038 | -£706 |
| | | | |
| Eiddo | £14,470 | £14,470 | -£0 |
| | | | |
| Trafnidiaeth | £850 | £0 | -£850 |
| | | | |
| Gwasanethau a Cyflenwadau | £13,420 | £3,993 | -£9,427 |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Incwm | -£43,700 | -£44,374 | -£674 |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **£14,784** | **£3,127** | **-£11,657** |

| HAFAN PWLLHELI | Perfformiad Ariannol am y cyfnod 1 Ebrill 2023 at 31 Mawrth 2024 - Adolygiad Awst 2023 | | |
|---|---|---|---|
| | CYLLIDEB 1/4/23 at 31/3/24 | GWARIANT A RHAGWELIR 1/4/23 at 31/3/24 | GOR (TAN) |
| Gweithwyr | £327,745 | £332,437 | £4,692 |
| | | | |
| Eiddo | £554,340 | £585,559 | £31,219 |
| | | | |
| Trafnidiaeth | £13,340 | £9,737 | -£3,603 |
| Gwasanethau a Cyflenwadau | £131,350 | £106,693 | -£24,657 |
| Incwm | -£1,807,680 | -£1,886,586 | -£78,906 |
| **Cyfanswm** | **-£780,905** | **-£852,160** | **-£71,255** |